

Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudfil
Llinell Gymorth y Gwasanaeth Seicoleg Addysg
(EPS yn Saesneg)

ar gyfer

Plant cyn oed ysgol, Ysgolion, Rhieni a Gweithwyr Proffesiynol

Fel rhan o'n hymglymiad Cam A bydd 'Llinell Gymorth y Gwasanaeth Seicoleg Addysg' yn cael ei chynnal bob pythefnos ac yn cynnig y cyfle i staff cyn-ysgol, staff ysgol, rhieni a gweithwyr proffesiynol drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt ynghylch lles a/neu anghenion dysgu plant a phobl ifanc. Bydd ehangu'r gwasanaeth hwn yn galluogi unigolion i gael cymorth seicolegol amserol heb orfod aros am ymweliad gan eich seicolegydd addysg cyswllt.

Sylwer: Rhaid i drafodaethau gyda staff a gweithwyr proffesiynol eraill drwy'r gwasanaeth hwn fod yn drafodaethau **anhysbys**. Eu bwriad yw annog myfyrdod a'r modd i ddatrys problemau yn ystod cyfnod cynnar yr ymateb graddedig. Gellir cynnal ymgynghoriad manylach ynghylch anghenion disgyblion unigol trwy ymgynghoriad Cam B/C yn yr ysgol gyda chaniatâd rhieni.

Er mwyn cysylltu â Llinell Gymorth y Gwasanaeth Seicoleg Addysg ym Merthyr, dylai rhieni neu weithwyr proffesiynol eraill gysylltu â ni drwy anfon e-bost at **EPS@rctcbc.gov.uk** gan ddarparu rhif ffôn a chrynodeb o'r cyngor neu'r gefnogaeth sydd ei hangen.

Unwaith i ni dderbyn cais, bydd aelod o'n tîm yn cysylltu gydag unigolion er mwyn trefnu amser cyfleus ar gyfer ymgynghoriad 30 munud.

Gallwn fod o gymorth gyda'r materion canlynol:

- Cefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol
 - Cefnogi disgyblion gydag iechyd meddwl a llesiant